| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **25/07/2024** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Jac Y Do, Clwb y Ceidwadwyr, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RT** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1 CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Jac Y Do, Clwb y Ceidwadwyr, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RT. Mae'r ymgeisydd, Non Edwards, yn gwneud cais am drwydded eiddo ar gyfer tafarn a bwyty yng Nghaernarfon.

1.2 Mae'r cais yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â Cherddoriaeth Fyw ac wedi'i Recordio y Tu Mewn, Lluniaeth Hwyr yn y Nos ar yr Eiddo a Chyflenwi Alcohol ar ac oddi ar yr Eiddo.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol, a'i fod felly yn ddilys.

Gweler y tabl isod am fanylion oriau arfaethedig y gweithgareddau trwyddedu:

**Oriau Agor:**
**Dydd Sul 12:00 – 00:30**
**Dydd Llun 12:00 – 00:30**
**Dydd Mawrth 12:00 – 00:30**
**Dydd Mercher 12:00 – 00:30**
**Dydd Iau 12:00 – 00:30**
**Dydd Gwener 12:00 – 00:30**
**Dydd Sadwrn 12:00 – 00:30**

**Nos Galan - 12:00 – 4:00**
**Ddydd Gŵyl San Steffan - 12:00-03:00**

**Gweithgareddau Trwyddedig:**

**Cerddoriaeth Fyw - Tu mewn yn unig:**
**Dydd Sul 12:00 – 23:00**
**Dydd Llun 12:00 – 23:00**
**Dydd Mawrth 12:00 – 23:00**
**Dydd Mercher 12:00 – 23:00**
**Dydd Iau 12:00 – 23:00**
**Dydd Gwener 12:00 – 23:00**
**Dydd Sadwrn 12:00 – 23:00**

**Cerddoriaeth wedi'i Recordio - Tu mewn yn unig:**
**Dydd Sul 12:00 - 00:00**
**Dydd Llun 12:00 - 00:00**
**Dydd Mawrth 12:00 - 00:00**
**Dydd Mercher 12:00 - 00:00**
**Dydd Iau 12:00 - 00:00**
**Dydd Gwener 12:00 - 00:00**
**Dydd Sadwrn 12:00 - 00:00**

**Lluniaeth hwyr yn y nos - Tu mewn yn unig**

**Dydd Sul 23:00 - 23:30**
**Dydd Llun 23:00 - 23:30**
**Dydd Mawrth 23:00 - 23:30**
**Dydd Mercher 23:00 - 23:30**
**Dydd Iau 23:00 - 23:30**
**Dydd Gwener 23:00 - 23:30**
**Dydd Sadwrn 23:00 - 23:30**

**<u>Cyflenwi Alcohol - Ar ac oddi ar yr Eiddo</u>**
**Dydd Sul 12:00 - 23:30**
**Dydd Llun 12:00 - 23:30**
**Dydd Mawrth 12:00 - 23:30**
**Dydd Mercher 12:00 - 23:30**
**Dydd Iau 12:00 - 23:30**
**Dydd Gwener 12:00 - 23:30**
**Dydd Sadwrn 12:00 - 23:30**

**Mae'n debygol y bydd y sefydliad yn cau yn gynharach nag 1, ond mae hyn yn rhoi amser i'r cwsmeriaid orffen eu diodydd. Gallai'r amrywiadau gynnwys:**
**- Nos Galan**
**- Noswyl Nadolig**
**- Dydd Gŵyl San Steffan**

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Mae'r ymgeisydd yn anelu i ymuno a gweithio gyda Chynllun *Pub Watch* Caernarfon.
- Bydd CCTV yn ei le a bydd yn cadw recordiadau am 30 diwrnod. Bydd dau gamera y tu allan i'r adeilad a chwech y tu fewn.
- Bydd gan Jac y Do bolisi dim goddefgarwch ar gyffuriau ac ymddygiad treisgar tuag at aelodau o staff ac aelodau o'r cyhoedd.
- Mae larymau tân wedi cael eu lleoli yn yr eiddo ac mae'r holl lwybrau allanfeydd tân wedi cael eu marcio'n amlwg.
- Bydd llyfr adrodd digwyddiadau / damweiniau hefyd tu ôl y bar i gadw cofnod manwl o unrhyw ddamweiniau a bydd hyn yn cael ei ysgrifennu ar noson y digwyddiad.
- Bydd llygredd sŵn yn cael ei reoli drwy fynedfa gyda drws dwbl.
- Bydd polisi Her 25 yn cael ei weithredu yn yr eiddo a bydd yr holl staff nad ydynt yn berchen ar drwydded bersonol yn derbyn hyfforddiant cydnabyddedig swyddogol mewn atal gwerthiant alcohol i blant dan oed.

**Gweler rhan M o'r cais am y rhestr llawn o fesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.**

## 3. YMGYNGHORIAD

Yn dilyn ymgynghori ar y cais, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Iechyd yr Amgylchedd | Gwrthwynebiad |

### 3.1 Gwrthwynebiad gan Iechyd yr Amgylchedd

**3.2** Mae'r Adran hefyd wedi bod yn delio gyda'r cais cynllunio ar gyfer y safle hwn. Nid oes gan yr eiddo ganiatâd cynllunio i gael ei ddefnyddio fel tafarn ar hyn o bryd. Nid oedd yr ystyriaethau rheoli sŵn wedi cael sylw digonol yn y cais cynllunio, ac mae swyddogion Gwarchod y Cyhoedd (Iechyd yr Amgylchedd) wedi gwneud cais bod angen ymgymryd ag asesiad sŵn ac

inswleiddio sŵn a mesuriadau lliniaru, er mwyn sicrhau nad yw sŵn o'r eiddo yn achosi niwsans statudol. Mae adeilad gyda thai preswyl wedi'i leoli yng nghefn yr adeilad, fflatiau uwchben a thai preswyl dros y ffordd. Mae'r swyddogion yn bryderus y gallai sŵn ddod o'r safle.

**Gweler yr atodiad ar gyfer y sylwadau llawn gan Iechyd yr Amgylchedd.**

## 4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir i'r Pwyllgor hwn ystyried gwrthwynebiad Iechyd yr Amgylchedd ac ystyried cymhwyso mesurau lliniaru sŵn i'r Atodlen Weithredol os am gymeradwyo'r cais; yn unol â Deddf Trwyddedu 2003.